

## **Protocol ar Ymdrin ag Euogfarnau Troseddol a Ddatgelwyd gan Gofrestreion**

---

1. Bydd pob datgeliad o euogfarnau troseddol yn cael ei gyfeirio at y Cofrestrydd i'w ystyried.
2. Yn gyffredinol, bydd y Cofrestrydd yn rhagdybio yn erbyn cofrestru, adfer neu gadw ar gofrestr GOC pan fydd ymgeisydd yn datgelu euogfarn am drosedd a gynhwysir yn Atodlen 4 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000.
3. Y troseddau sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 4 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 yw:
  - (a) trosedd yn erbyn plentyn
  - (b) llofruddiaeth
  - (c) dynladdiad
  - (d) herwgipio
  - (e) carcharu ar gam
  - (f) clwyfo ac achosi niwed corfforol difrifol
  - (g) ymosodiad, gan gynnwys gwir niwed corfforol
  - (h) treisio
  - (i) caffael menywod
  - (j) trosedd o dan adran 128 Deddf Iechyd Meddwl 1959 (k) trosedd o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003
  - (l) trosedd o dan adran 4(3) Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971.
4. Er y bydd euogfarn o'r fath yn cael ei hystyried yn gyffredinol ei bod mor ddifrifol fel y gwrthodir mynediad i'r gofrestr, bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod.
5. (a) Wrth ystyried y cais, bydd y Cofrestrydd yn rhagdybio:
  - y cyflawnwyd y trosedd, gan beidio ystyried dadl neu dystiolaeth i'r gwrthwyneb;
  - mae euogfarn yn codi cwestiwn ynghylch cymeriad yr ymgeisydd;(b) Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am berswadio'r Cofrestrydd ei fod ef neu hi yn berson addas er gwaethaf yr euogfarn.  
(c) Y prif fater i'r Cofrestrydd wrth ystyried cais fydd a yw'r ymgeisydd, er gwaethaf euogfarn, yn addas i'w gofrestru. Bydd hyn yn dibynnu, *inter alia*, ar:
  - Natur a difrifoldeb y trosedd;
  - Maint a natur unrhyw risg i gleifion neu'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r ymddygiad troseddol;
  - Yr amserlen troseddu;

- Perthnasedd y trosedd i safonau ac ymddygiad proffesiynol;
- Cymeriad ac ymddygiad yr ymgeisydd ers y trosedd;
- Effaith cyflawni trosedd o'r fath gan gofrestrai ar hyder y cyhoedd yn y proffesiynau.

(i) Natur a difrifoldeb y trosedd

Gall y Cofrestrydd ystyried tystiolaeth a gwybodaeth am y canlynol:

- y diffiniad cyfreithiol o'r trosedd, yr ymddygiad troseddol perthnasol, yr elfen 'meddwl euog' fel anonestrwydd, bwriad neu fyrbwylltra;
- y ddedfryd fwyaf y gallai'r Llys fod wedi'i rhoi, y ddedfryd wirioneddol a roddwyd a'r gosb a roddwyd mewn gwirionedd;
- ffeithiau'r trosedd, y mesurau lliniaru a gynigiwyd cyn y ddedfryd, a'r mesurau lliniaru a gynigiwyd i gefnogi eu cais am gofrestriad;
- sylwadau dedfrydu a wnaed gan y Llys;
- unrhyw ddatganiad effaith ar ddioddefwr a gyflwynwyd i'r llys;
- niwed neu golled a ddioddefwyd gan unrhyw

ddioddefwr y trosedd. (ii) patrwm o droseddu

Bydd y Cofrestrydd yn ystyried:

- a oedd trosedd yn ddigwyddiad "un-tro" neu'n gysylltiedig â chyfres o droseddau union yr un fath neu droseddau cysylltiedig;
- a oedd trosedd cynnar wedi arwain at droseddau mwy difrifol wedi hynny;
- a gafwyd patrwm o droseddu a oedd yn dangos bod y ceisydd wedi rhoi'r gorau i droseddu.

(iii) Yr amserlen troseddu

Bydd y Cofrestrydd yn ystyried:

- y cyfnod rhwng yr euogfarn a'r cais i gofrestru;
- a oes unrhyw gyfnod o ddedfryd ohiriedig yn dal heb ei fwrw, neu a yw'r cyfnod atal wedi'i gwblhau;
- y cyfnod o amser pryd y digwyddodd y troseddau.

(iv) Perthnasedd i gofrestriad proffesiynol

Bydd y Cofrestrydd yn cael ei arwain gan:

- agweddau perthnasol ar y gyfraith droseddol (yn hytrach na barn a gwerthoedd personol);
- canllawiau proffesiynol y Cyngor a sut mae'r euogfarn yn gwyro oddi wrth y safonau sy'n ofynnol fel gweithiwr proffesiynol.

(v) Cymeriad ac ymddygiad ers y trosedd

Wrth ystyried y cais, bydd y Cofrestrydd yn:

- asesu a yw'r trosedd yn arwydd o agweddau neu nodweddion personol sy'n anghydnaws â chofrestru;
- ystyried y risg o aildroseddu a difrifoldeb canlyniadau aildroseddu, pe bai hynny'n digwydd, yn enwedig mewn perthynas â diogelwch cleifion a diogelwch arian cleifion ac arian cyhoeddus;
- peidio â thybio y bydd treigl amser yn diddymu'r trosedd neu nad yw'r Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr, a all arwain at ddisbyddu euogfarnau, yn berthnasol. Fodd bynnag, gall treigl amser fod yn berthnasol os yw'n dangos bod y risg o aildroseddu yn isel neu'n lleihau, yn enwedig os defnyddiwyd yr amser hwnnw'n adeiladol;
- rhoi ystyriaeth briodol i ymddygiad cadarnhaol priodol.

#### 6. Mwy o wybodaeth

Er mwyn gwneud penderfyniad, gall y Cofrestrydd ofyn am ragor o wybodaeth neu eglurhad gan yr ymgeisydd neu eraill ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â'r cais. Anfonir ceisiadau am ragor o wybodaeth o fewn deg diwrnod gwaith i dderbyn y cais. Os bydd yr ymgeisydd yn gwrthod cytuno â'r cais hwn am wybodaeth, neu'n methu ag ymateb i'r cais o fewn 14 diwrnod, gall y Cofrestrydd ystyried y cais ar sail y wybodaeth sydd ganddi.

#### 7. Penderfyniad y Cofrestrydd

Ar ôl ystyried yr achos, bydd y Cofrestrydd yn penderfynu naill ai: (a) caniatáu'r cais am gofrestrriad, cadw neu adfer; (a) gwrthod y cais am gofrestrriad, cadw neu adfer.

Bydd y Cofrestrydd yn hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o'i benderfyniad o fewn deg diwrnod gwaith i dderbyn y cais neu ragor o wybodaeth, neu yn achos methiant i ddarparu mwy o wybodaeth, o fewn deg diwrnod gwaith i'r Terfyn amser ar gyfer derbyn y wybodaeth hon. Os yw penderfyniad y Cofrestrydd yn anffafriol, bydd y Cofrestrydd yn darparu:

- y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw; a
- gwybodaeth am hawl yr ymgeisydd i apelio yn erbyn y penderfyniad.

#### 8. Pwyllgor Apeliadau Cofrestru

Dan delerau Atodlen 1A Deddf Optegwyr 1989, bydd gan unrhyw un sydd wedi cofrestru hawl i droi at y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru at ddibenion gwrando a phenderfynu ar apeliadau yn erbyn unrhyw benderfyniad gan y Cofrestrydd.

26 Mawrth 2009

Diwygiwyd 12 Hydref 2010